
TACTEG
GWYDDONIAETH

# CWESTIYNAU CWIS: Bioleg - Gwaed: L5-7

Ysgrifenna'r ateb cywir yn y bwlch.



1: Mae cyhyrau actif yn cynhyrchu egni thermol.
Mae'r gwaed yn cludo'r egni hwn i un prif organ. Pa un?

2: Pa gelloedd gwyn y gwaed sy'n amgylchynu ac yn amlyncu pethau sy'n ymosod ar y corff megis bacteria?

3: Pa gydrannau bach yn y gwaed sy'n cylchredeg ac yn helpu i geulo gwaed?

4: Pa foleciwl pigment sy'n cynnwys haearn a phrotein ac sydd yng nghelloedd coch y gwaed?

5: Pa gynnyrch gwastraff wedi'i hydoddi, sy'n cael ei gynhyrchu gan yr iau/afu ac yn cael ei gludo yn y gwaed i'r arennau?


©BBC

Cysyllta'r hanner brawddegau gyda'u partneriaid (A-D).
Ysgrifenna'r llythyren gywir yn y bwlch gyferbyn â'r frawddeg gywir.

**A - yn gyhyrog, trwchus ac elastig.**
**B - pwysedd gwaed yn y gwythiennau yn isel.**
**C - sydd â waliau un-gell brau.**
**CH - phasio trwy waliau'r capilariau i feinweoedd.**
**D - hormonau i'r llif gwaed.**

6: Gall lewcocytau wthio a ...

7: Mae gan rydwelïau waliau sydd ...

8: Falfiau sy'n sicrhau fod y gwaed yn llifo un ffordd yn unig gan fod ...


9: Mae organau endocrin yn rhyddhau ...

10: Pibellau gwaed yw capilarïau ...


©BBC

# ATEBION CWIS: Bioleg - Gwaed: L5-7

Ysgrifenna'r ateb cywir yn y bwlch.



1: Mae cyhyrau actif yn cynhyrchu egni thermol.
Mae'r gwaed yn cludo'r egni hwn i un prif organ. Pa un?

**Y croen**

2: Pa gelloedd gwyn y gwaed sy'n amgylchynu ac yn amlyncu pethau sy'n ymosod ar y corff megis bacteria?

**Ffagosytau**

3: Pa gydrannau bach yn y gwaed sy'n cylchredeg ac yn helpu i geulo gwaed?

**Platennau**

4: Pa foleciwl pigment sy'n cynnwys haearn a phrotein ac sydd yng nghelloedd coch y gwaed?

**Haemoglobin**

5: Pa gynnyrch gwastraff wedi'i hydoddi, sy'n cael ei gynhyrchu gan yr iau/afu ac yn cael ei gludo yn y gwaed i'r arennau?

**Wrea**



©BBC

Cysyllta'r hanner brawddegau gyda'u partneriaid (A-D).
Ysgrifenna'r llythyren gywir yn y bwlch gyferbyn â'r frawddeg gywir.

**A - yn gyhyrog, trwchus ac elastig.**
**B - pwysedd gwaed yn y gwythiennau yn isel.**
**C - sydd â waliau un-gell brau.**
**CH - phasio trwy waliau'r capilariau i feinweoedd.**
**D - hormonau i'r llif gwaed.**

6: Gall lewcocytau wthio a ...

**CH - phasio trwy waliau'r capilariau i feinweoedd.**

7: Mae gan rydwelïau waliau sydd ...

**A - yn gyhyrog, trwchus ac elastig.**

8: Falfiau sy'n sicrhau fod y gwaed yn llifo un ffordd yn unig gan fod ...

**B - pwysedd gwaed yn y gwythiennau yn isel.**

9: Mae organau endocrin yn rhyddhau ...

**D - hormonau i'r llif gwaed.**

10: Pibellau gwaed yw capilarïau ...

**C - sydd â waliau un-gell brau.**


©BBC